



GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board





Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

# ADOLYGIAD BLYNYDDOL 2023/24













# Cynnwys

Cyflwyniad a throsolwg gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr .............3

Pwy ydym ni..........................................5

Trosolwg ar berfformiad.......................7

2023/24 – Cipolwg ar rai o'n datblygiadau yn ystod y flwyddyn ........9

Ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol ........14

Cymryd rhan ........................................15

Mae'r Adolygiad Blynyddol hwn yn cynnig crynodeb o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon2023/24.

Gallwch lawrlwytho copïau o'r holl ddogfennau hyn oddi ar wefan y Bwrdd Iechyd https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/trefniadau-llywodraethu-a-sicrwydd/ neu maent ar gael ar gais gan Dîm Cyfathrebu'r Bwrdd Iechyd yn BIPBC, Bloc 5, Cwrt Carlton, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, LL17 0JG, ar y ffôn ar 03000 840008 neu drwy anfon e-bost at bcuhbpressdesk@wales.nhs.uk



# Adolygiad Blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr 2023/24

**Cyflwyniad a throsolwg gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr. Mae hon wedi bod yn flwyddyn o newid mawr i'r sefydliad. Mae wedi bod yn flwyddyn lle'r ydym wedi parhau i wynebu heriau sylweddol, ond lle'r ydym hefyd wedi dechrau gweld rhywfaint o welliant wrth adeiladu'r sylfeini ar gyfer dyfodol cryfach.**

Dyma'r flwyddyn lawn gyntaf ers i ni ddod yn destun mesurau arbennig gan Lywodraeth Cymru, a ysgogodd newid arweinyddiaeth, gan gynnwys penodi tîm llawn newydd o Aelodau Annibynnol i'r Bwrdd.

Er bod effeithiau COVID-19 yn prysur ddiflannu, rydym wedi bod yn ymdrin ag anawsterau heriol eraill gan gynnwys gweithredu diwydiannol gan rai o'n staff a sefyllfa ariannol anodd barhaus.

Yn y cyfamser, mae methiannau sylweddol â rhai agweddau ar ein perfformiad wedi'u nodi ac rydym yn gweithio'n galed i fynd i'r afael â hwy.

Mae'r cyd-destun ariannol yr ydym ni a bron iawn pob corff cyhoeddus arall fwy neu lai yn gweithredu ynddo yn dal i fod yn heriol, yn y tymor byr a'r tymor hir. Er ein bod wedi gwneud cynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf, erys ein diffyg ariannol sylfaenol ac mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â hynny.

Rydym hefyd yn parhau i wynebu prinder staff mewn llawer o feysydd allweddol, a achosir gan farchnad recriwtio anodd. Dyna pam y gwnaethom ni, ynghyd â Byrddau Iechyd eraill, gefnogi ymgyrch recriwtio Llywodraeth Cymru i benodi staff meddygol o'r India i ddod i weithio gyda ni yng Nghymru.

Cleifion a'u hanghenion sydd wedi cael ein sylw pennaf trwy gydol y flwyddyn. Rydym yn deall yr anawsterau y mae llawer ohonynt yn eu hwynebu, gan gynnwys gorfod aros mewn Adrannau Achosion Brys ac am lawdriniaethau ac apwyntiadau deintyddol.

Rydyn ni'n rhannu eu rhwystredigaethau ac yn gwybod y gallwn ni wneud yn well, a bod yn rhaid i ni wneud hynny. Rydym wedi gwneud penderfyniad ymwybodol i fod mor ddidwyll a gonest â phosibl â phobl Gogledd Cymru, fel y gallant ddeall y pwysau yr ydym yn ei wynebu ac fel y gallwn ninnau wrando ar eu barn.

Dyna pam yr ydym wedi cychwyn cyfres o sgyrsiau cymunedol, gan ymweld â threfi a phentrefi ledled Gogledd Cymru, ble bydd croeso i bawb gyfarfod ag aelodau ein Bwrdd a'n Tîm Gweithredol a'u holi am y gwasanaethau rydym yn eu darparu. Rydym yn dymuno cael clywed am eu profiadau, boed y rhain yn rhai da neu'n rhai gwael, fel y gallwn wrando a dysgu. Bydd y digwyddiadau hyn yn parhau trwy gydol y flwyddyn hon ac wedi hynny.

Er ei bod yn hawdd canolbwyntio ar y pethau negyddol, ceir rhesymau i fod yn optimistaidd ac mae'n rhaid i ni ddiolch i'n staff am hynny. Maent yn darparu gofal, cymorth a thriniaethau rhagorol i filoedd o bobl ledled Gogledd Cymru bob wythnos, a dymunwn gydnabod eu hymroddiad a'u harbenigedd parhaus o ran eu dull o ofalu am ein cleifion a'r gymuned ehangach.

Mae cadernid, ymrwymiad a brwdfrydedd staff rheng flaen a staff cymorth yn rhywbeth y gallwn ni oll ymfalchïo ynddo, a dyna pam rydyn ni'n obeithiol am y dyfodol. Er enghraifft, dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi sicrhau gostyngiad o 45% yn nifer y bobl sy'n aros 52 wythnos i gael apwyntiad cyntaf, mae'r gwasanaethau fasgwlaidd wedi cael adolygiad allanol cadarnhaol gan Gwella Iechyd Cymru, ac rydym wedi sefydlu dulliau newydd o drin a rhoi diagnosis ar gyfer rhai mathau o ganser gan gynnwys defnyddio deallusrwydd artiffisial i ymdrin â chanser y fron a chanser y brostad.

Mae gwaith i adeiladu canolfan orthopedig newydd sbon yn Ysbyty Llandudno hefyd wedi dechrau. Cymeradwyodd Llywodraeth Cymru gyllid gwerth hyd at £29.4m i ariannu'r cyfleuster newydd i helpu i leihau amseroedd aros am wasanaethau orthopedig. Bydd y ganolfan newydd yn trawsnewid gwasanaethau orthopedig dewisol drwy ddarparu 1,900 o driniaethau wedi'u cynllunio bob blwyddyn, a bydd yn cychwyn gweithredu yn 2025.

Rydym yn cydnabod na allwn weithredu ar ein pennau ein hunain oherwydd rydym yn rhan o system iechyd a gofal cymdeithasol lawer ehangach sy'n cynnwys awdurdodau lleol, sefydliadau addysgol, sefydliadau gwirfoddol a'r gwasanaeth ambiwlans.

Rydym yn gweld gwerth yn y partneriaethau sydd gennym â'r sefydliadau hyn a llawer o sefydliadau eraill ledled Gogledd Cymru a thu hwnt. Maent yn wynebu heriau tebyg i'n heriau ni i ateb galwadau cynyddol o fewn yr adnoddau sydd ar gael, a byddwn yn parhau i gydweithio'n agos trwy bartneriaeth â hwy bob tro y gallwn ni i fanteisio'n llawn ar yr adnoddau sydd ar gael i wella iechyd a lles ein poblogaeth.

Er enghraifft, rydym yn parhau i gydweithio'n agos â Phrifysgol Bangor. Yno, croesawir myfyrwyr cyntaf rhaglen gradd feddygol lawn gyntaf Gogledd Cymru ym mis Medi 2024, trwy gydweithrediad â Phrifysgol Caerdydd a darparwyr gofal sylfaenol yn y rhanbarth.

Heb os, bydd y flwyddyn sydd ar ddod yn dal i fod yn heriol, ond mae gobaith at y dyfodol. Rydym wedi llunio cynllun tair blynedd sy'n nodi ein huchelgeisiau hyd at 2027 ac sy'n croesawu diwylliant o welliannau i'n gwasanaethau, ac yn ein tyb ni, mae hynny'n profi ein bod yn blaenoriaethu'r pethau priodol er mwyn gwella'r gwasanaeth iechyd yng Ngogledd Cymru.



**DYFED EDWARDS**
Cadeirydd,
BCUHB



**CAROL SHILLABEER**
Prif Weithredwr,
BCUHB





# Pwy ydym ni

**Ni yw'r sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru, ac mae gennym ni gyllideb gwerth £1.99 biliwn a dros 20,000 o staff yn ein gweithlu. Mae'r Bwrdd Iechyd yn system iechyd integredig sy'n anelu at ddarparu gofal tosturiol rhagorol gan gydweithio â sefydliadau cyhoeddus a sefydliadau statudol eraill, a sefydliadau yn y trydydd sector.**

Rydym yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gofal iechyd i fwy na 700,000 o bobl ledled chwe sir gogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam). Mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau sylfaenol, cymunedol ac iechyd meddwl, yn ogystal â gwasanaethau ysbytai cyffredinol.

Mewn lleoliadau gofal sylfaenol, mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu gofal gan y GIG trwy gyfuniad o gontractwyr annibynnol a gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol ledled Gogledd Cymru. Mae'r rhwydwaith hwn o wasanaethau gofal sylfaenol yn cwmpasu 96 o bractisau meddygol ("practisau meddygon teulu"), 83 o bractisau deintyddol ac orthodontig, 69 o bractisau optometreg/optegydd a 147 o fferyllfeydd cymunedol.

Mewn lleoliadau cymunedol, mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu ystod eang o wasanaethau cymunedol y GIG gan gynnwys nyrsio yn y gymuned, gwasanaeth ymwelwyr iechyd, ffisiotherapi, a gofal lliniarol, trwy rwydwaith o ganolfannau iechyd, clinigau, canolfannau timau cymunedol ac 16 o ysbytai cymunedol, a chânt eu cydlynu ar sail 14 o 'ardaloedd lleol'.

Caiff gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol eu darparu mewn canolfannau ledled Gogledd Cymru, â chymorth unedau iechyd meddwl ar gyfer cleifion preswyl ledled y rhanbarth.

Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn darparu gwasanaethau sylfaenol, cymunedol ac iechyd meddwl i boblogaeth carchar CEF Berwyn yn Wrecsam.

Darperir gwasanaethau ysbytai cyffredinol mewn tri phrif safle, sef Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan ac Ysbyty Maelor Wrecsam, a chaiff rhai gwasanaethau llawfeddygol eu darparu yn Abergele a Llandudno hefyd.

Lle na ellir darparu gofal gan y GIG yng Ngogledd Cymru, er enghraifft, ynghylch rhai cyflyrau prin neu wasanaethau tra arbenigol, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydweithio â darparwyr eraill y GIG yng Nghymru a Lloegr, i sicrhau bod gan gleifion fynediad at y triniaethau arbenigol sydd eu hangen arnynt.

Rydym hefyd yn gyfrifol, trwy bartneriaeth, am wella iechyd a lles pobl leol drwy weithgareddau megis ein rhaglenni brechu llwyddiannus a gwasanaethau iechyd ar gyfer ysgolion.







# Trosolwg ar weithgarwch

**Yma hoffem roi cipolwg o'r gwasanaethau y mae ein staff yn eu darparu a'r gweithgarwch cysylltiedig.**

Mae'r mwyafrif o gysylltiadau cleifion – tua phedwar o bob pump – â gwasanaethau iechyd yn digwydd yn y gymuned, er enghraifft mewn practisau meddygon teulu, fferyllfeydd, gwasanaethau deintyddol, gwasanaethau optometreg neu gartrefi'r cleifion eu hunain. Yn 2023/24:

- Cynhaliwyd 71,843 o ymgynghoriadau mewn fferyllfeydd o dan y Cynllun Anhwylderau Cyffredin
- 38,725 o ymgynghoriadau gwasanaethau meddyginiaethau brys wedi'u cynnal gan fferyllfeydd
- Ar gyfartaledd, roedd 18,286 o bobl yn derbyn triniaeth ddeintyddol y GIG bob mis

Roedd hefyd yn flwyddyn brysur i'n hysbytai gyda lefelau gweithgarwch uwch ar draws bron pob maes, sy'n cyfleu'r pwysau brys y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i wynebu a'r gwaith i gynyddu ein gweithgarwch triniaethau wedi'u cynllunio wrth i ni geisio sicrhau adferiad wedi'r aflonyddwch a achoswyd gan bandemig Covid-19. Yn 2023/24 roedd:

- 822,589 o apwyntiadau cleifion allanol ysbytai
- 326,964 o bobl wedi mynd i Adrannau Achosion Brys neu Unedau Mân Anafiadau
- 11,737 o driniaethau wedi'u cynllunio wedi eu cynnal
- 93,089 o lawdriniaethau achosion dydd
- 5,595 o enedigaethau



Mae ein gwasanaethau Therapi yn rhan hanfodol o'r system iechyd a gofal cymdeithasol gyfan ac yn ystod y flwyddyn cawsant fwy na 130,400 o gyfeiriadau newydd, ac:

- mynychwyd mwy na 91,000 apwyntiadau cleifion allanol newydd
- mynychwyd mwy na 271,000 o apwyntiadau dilynol
- cafodd mwy na 333,500 o gleifion eu trin/gweld mewn ysbytai gan Therapyddion

Yn ystod 2023/24 mae ein Nyrsys Ardal wedi:

- cynnal 659,2800 o ymweliadau ac roedd tua 43,943 ohonynt y tu allan i oriau craidd a 114,131 ar y penwythnos i sicrhau ystod deg a hygyrch o wasanaethau.








# Trosolwg ar Berfformiad

**Unwaith yn rhagor, mae'r 12 mis diwethaf wedi bod yn heriol iawn i'r Bwrdd Iechyd. Rydym ni, fel pob Bwrdd Iechyd arall yng Nghymru, wedi wynebu costau cynyddol sydd wedi arwain at bwysau ar ein cyllidebau sydd eisoes dan bwysau wrth i ni ymdrechu i wneud ein gorau glas i bobl Gogledd Cymru.**







Mae 2023/24 hefyd yn nodi'r flwyddyn lawn gyntaf ers i ni ddod yn destun mesurau arbennig gan Lywodraeth Cymru, gan ychwanegu at y materion sy'n ein hwynebu yma. Nid dod yn destun mesurau arbennig yw'r unig fater yr ydym wedi gorfod rhoi sylw iddo yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae staff y GIG ledled Cymru wedi bod yn streicio, ac er ein bod yn deall y rhesymau dros eu gweithredu diwydiannol, mae hynny wedi tarfu ar lawer o driniaethau wedi'u cynllunio.

Yn dilyn adroddiad beirniadol gan Archwilio Cymru ynghylch ein llywodraethu a'n rheolaeth ariannol yn 2023, rydym yn falch bod yr adroddiad diweddaraf a gyhoeddwyd yn 2024 yn cydnabod y cynnydd yr ydym wedi'i wneud, er yr erys rhywfaint o waith i'w gyflawni.

Mae nifer o faterion cymhleth ac anodd eraill wedi codi yn ystod y flwyddyn:

- Rydym yn dal i wynebu heriau o ran recriwtio staff i weithio mewn rhai disgyblaethau, ond yn ddiweddar, rydym wedi llwyddo i recriwtio nyrsys o'r India i lenwi rhai swyddi.
- Mae amseroedd aros yn dal yn rhy hir mewn llawer o achosion, ac rydym yn rhannu rhwystredigaeth cleifion sy'n aros am driniaeth.
- Mae gwasanaethau gofal sylfaenol, gan gynnwys deintyddiaeth, yn profi pwysau eithriadol, ac rydym yn cymryd camau i wella'r gwasanaethau hyn.
- Cafodd y Bwrdd Iechyd ddirwy yn dilyn erlyniad gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Rydym wedi ymddiheuro i'r teulu dan sylw ac rydym yn benderfynol o barhau i wella'r gwasanaeth a ddarparwn, yn enwedig yn y meysydd nad ydym yn cyflawni ein huchelgais i fod yn wasanaeth rhagorol.
- Rydym hefyd wedi bod yn destun nifer o adroddiadau Atal Marwolaethau yn y Dyfodol gan grwneriaid Gogledd Cymru. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd yr adroddiadau hyn ac yn eu cymryd o ddifrif oherwydd mae'r ystadegau yn cynrychioli pobl sydd wedi profi colled bersonol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi ac ymateb i'r themâu allweddol a'r gwersi i'w dysgu sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau. Mae angen i ni wella llawer o bethau er mwyn sicrhau ein bod ni'n darparu gwasanaethau sy'n blaenoriaethu ansawdd a diogelwch cleifion.

Rydym wedi amlygu gwelliannau mewn meysydd yn ystod y flwyddyn, ac mae lefelau gweithgarwch ym mhob agwedd bron iawn ar ein gwasanaethau yn adeiladu ar sail y gwelliannau a wnaed y llynedd ac yn parhau i gynyddu, ac rydym wedi cyflawni nifer o brosiectau strategol allweddol yn llwyddiannus.

Mae ein Cymunedau Iechyd Integredig yn ymsefydlu fel strwythur allweddol yn ein hymdrechion i ddatblygu ein cydberthnasau gwaith ag awdurdodau lleol yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol ac addysg.

O ran mesurau arbennig, nid yw hi fyth yn dda i unrhyw gorff cyhoeddus fod yn y sefyllfa hon. Fodd bynnag, mae wedi helpu i sicrhau bod ein hymdrechion yn canolbwyntio ar elfennau o'n gwasanaeth yr oedd angen eu gwella.

Rydym eisoes wedi sicrhau gwelliannau ac rydym yn trin pobl yn gynt mewn nifer o feysydd. Er enghraifft, mae nifer y bobl sy'n aros mwy na 52 wythnos am apwyntiad cyntaf wedi gostwng 45% ac mae nifer y bobl sy'n aros dros 104 wythnos wedi gostwng 37%. Fodd bynnag, mae llawer mwy i'w wneud ac rydym yn gweithio'n galed i fynd i'r afael â'r amseroedd aros hir.

Mae gwasanaethau fasgwlaidd wedi cael eu dad-ddwysáu gan Arolygiaeth Iechyd Cymru ac wedi cael adolygiad allanol cadarnhaol, ac mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo ein cynlluniau ar gyfer canolfan orthopedig gwerth miliynau o bunnoedd yn Llandudno a fydd yn trin 1,900 o gleifion ychwanegol bob blwyddyn ar ôl cychwyn gweithredu yn 2025.

Rydym yn rheoli ein cyllidebau yn well yn y cefndir. Rydym wedi cymeradwyo cynllun ariannol a tharged o ran arbedion, ac rydym wedi darparu hyfforddiant ychwanegol ar gyfer mwy na 400 aelod o'r staff ynghylch gwella ein harferion caffael. Rydym wedi sicrhau gostyngiad o 82% yn nifer y contractau tymor byr drud, yn cynnwys staff dros dro.

Rydym bellach wedi penodi holl Aelodau Annibynnol y Bwrdd, a gallant sicrhau bod craffu ar ein gwasanaethau yn digwydd trwy gyfrwng ein his-bwyllgorau. Rydym yn buddsoddi yn ein staff ac yn annog diwylliant gweithio cadarnhaol sy'n ddidwyll ac yn onest fel y gall pawb rannu eu safbwyntiau a'u syniadau i wella profiad cleifion.

Rydym wedi sicrhau cynnydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ond rwy'n gwybod yn bendant bod gennym gryn dipyn yn rhagor o waith i'w wneud. Mae gwella ein gwasanaethau i sicrhau y bydd ein statws mesurau arbennig yn dirwyn i ben yn bwysig, ond mae sicrhau mai'r holl wasanaethau rydym yn eu darparu yw'r rhai gorau i bobl Gogledd Cymru yn bwysicach fyth.





# 2023/24 - Cipolwg ar rai o'n datblygiadau yn ystod y flwyddyn

**Er ei iddi fod yn flwyddyn heriol arall i'r Bwrdd Iechyd, rydym yn gwybod bod ein staff yn mynd ati'n feunyddiol i wneud pethau gwych i gynorthwyo cymunedau ledled Gogledd Cymru ac i gynorthwyo ei gilydd.**

Mae'n bwysig i ni gydnabod a dathlu'r ymdrech ryfeddol hon ac i rannu'r straeon hyn er mwyn helpu pobl i gael gwell dealltwriaeth ynghylch y gwasanaethau rydym yn eu cynnig a sut y gallant eu cyrchu'n briodol.

## EBRILL 2023:

### Claf yng nghanolfan adsefydlu strôc newydd Sir y Fflint yn diolch i feddyg ymgynghorol am 'ei achub'



Agorodd canolfan adsefydlu strôc newydd yn Ysbyty Cymuned Glannau Dyfrdwy fel rhan o raglen gwerth £3 miliwn i wella gofal strôc yng Ngogledd Cymru.

Y claf gwrywaidd cyntaf yn y ganolfan adsefydlu strôc oedd Carl Lamb, 59 oed, o'r Orsedd, a ddiolchodd i Feddyg Ymgynghorol Strôc newydd Sir y Fflint a Wrecsam, Nia Williams, am ei helpu yn ystod ei adferiad.

Gwnaeth Carl, sy'n saer coed, lewygu tra'r oedd yn gweithio a phan ffoniodd ei wraig a chlywed ei hun yn siarad, sylweddolodd fod ei leferydd yn aneglur a'i fod wedi cael strôc. Aed ag ef i'r ysbyty agosaf yn Swydd Gaer a chafodd ei drosglwyddo i ward strôc Ysbyty Maelor Wrecsam. Derbyniodd y gwely cyntaf a oedd ar gael i ddynion yn y ganolfan newydd.

## MAI 2023:

### Cydnabod meddyg o Ysbyty Gwynedd mewn seremoni wobrwyo genedlaethol



Mae meddyg a ddisgrifiwyd fel 'arweinydd llawn gweledigaeth' wedi cael ei chydnabod mewn seremoni wobrwyo genedlaethol sy'n anrhydeddu'r menywod ethnig gorau a mwyaf disglair yng Nghymru.

Gwnaeth Dr Kakali Mitra ennill y wobr Rheoli ac Arwain yng Ngwobrau Cymdeithas Cyflawniad Menywod o Leiafrifoedd Ethnig yng Nghymru a gynhaliwyd yng Nghaerdydd.

Cafodd Dr Mitra ei phenodi fel Radiolegydd Ymyriadol Ymgynghorol yn Ysbyty Gwynedd yn 2007 ac mae hi wedi bod yn Gyfarwyddwr Clinigol Radioleg yn y Bwrdd Iechyd ers 2018. Yn y rôl hon, mae hi wedi goruchwylio'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau Radioleg yng Ngogledd Cymru.

## MEHEFIN 2023:

### 'Rydym ni ar drothwy byd cyffrous newydd...ac rydym ni ar flaen y gad'



Mae patholegydd ymgynghorol sydd wedi arloesi o ran defnyddio meddalwedd Deallusrwydd Artiffisial (AI) i helpu i ganfod canser y brostad, yn arwain datblygiad newydd o ran yr hyn a elwir yn "batholeg gyfrifiadurol".

Mae Dr Muhammad Aslam a'i gydweithiwr Dr Anu Gunavardhan wedi bod yn defnyddio'r rhaglen er mwyn helpu i ganfod canser y fron. Mae'r rhaglen, o'r enw platfform Galen ac a ddatblygwyd gan Ibex Medical Analytics, wedi cael ei pheilota yn y Bwrdd Iechyd a'r tîm yw'r cyntaf yn y DU i'w defnyddio ar lefel glinigol er mwyn helpu i ganfod canser y fron.

Mae Dr Aslam o'r farn y gallai'r defnydd clinigol newydd hwn arwain at ddechrau cyfnod newydd o ran diagnosteg canser, gan fod trin canser y fron yn gofyn am brofion cyflym a manwl-gywir er mwyn cael canlyniadau mwy llwyddiannus i gleifion.

## GORFFENNAF 2023:

### Uned prawf gwaed newydd yn lleihau amseroedd aros o wythnosau i ddyddiau




Roedd agor Uned Fflebotomi newydd yn Wrecsam yn golygu bod arhosiad cleifion am apwyntiad prawf gwaed wedi lleihau o chwe wythnos i dri diwrnod.

Gwnaeth yr uned, o'r enw Tŷ Madoc, agor yn Ysbyty Maelor Wrecsam gyda chwe chadair newydd ar gyfer cymryd gwaed gan gleifion, ac mae hefyd yn cynnwys apwyntiadau gyda'r hwyr.

Yn ystod y pandemig, gwnaeth amseroedd aros am brofion gwaed gynyddu i chwe wythnos ar gyfartaledd gan fod llai o leoliadau'n cynnig apwyntiadau am brofion gwaed. Gwnaeth Tŷ Madoc agor er mwyn helpu i ddelio â galw ac anghenion cynyddol cleifion yn yr ardal, ac ers iddo agor, mae 15,000 o brofion gwaed yn cael eu cynnal yn Wrecsam yn unig, gan helpu i leihau'r amseroedd aros i gleifion.

## AWST 2023:

### 'Roedd fy ngŵr yn meddwl fy mod i'n marw' - sut y gwnaeth y Clinig Diagnosis Cyflym helpu nain i drechu canser



Roedd teulu nain yn meddwl y byddai'n marw pan wnaeth ei phwysau ostwng o bron i 25 y cant mewn mater o ddeufis yn unig.

Fodd bynnag, gwnaeth ei meddyg teulu ei chyfeirio at Gyflym Diagnosis Cyflym Ysbyty Glan Clwyd. Darganfuwyd bod arni ganser yr aren a phennwyd rhaglen driniaeth iddi o fewn naw niwrnod.

Yn ffodus, tynnwyd aren ganseraidd Jean Machin, sy'n gyn ysgrifenyddes feddygol o Ruddlan, bum wythnos ar ôl iddi ymweld â'r clinig.





## MEDI 2023:

### Unigolyn ifanc yn ei arddegau yn diolch i staff practis Blaenau Ffestiniog am achub ei bywyd



Diolchodd unigolyn ifanc yn ei harddegau i staff practis ym Mlaenau Ffestiniog am achub ei bywyd ar ôl iddi fynd yn ddifrifol wael gyda diabetes math 1 heb ei ddiagnosio.

Aed â Jorja Horne-Edwards, sy'n 14 mlwydd oed, ar frys i Ganolfan Goffa Ffestiniog gan staff Ysgol y Moelwyn ar ôl iddynt weld ei bod wedi llewygu yn y toiled yn yr ysgol.

Gwnaeth staff yn y ganolfan iechyd asesu Jorja pan gyrhaeddodd a gwnaethant weld bod lefel y siwgr yn ei gwaed yn hynod uchel gan awgrymu Diabetes Math 1 a chetoasidosis diabetig dybryd (DKA) - sef cymhlethdod difrifol yn deillio o ddiabetes sy'n gallu bygwth bywyd.

Cafodd Jorja ei hedfan i Ysbyty Gwynedd gan Ambiwlans Awyr Cymru lle derbyniodd ddiagnosis Diabetes Math 1 yn ddiweddarach ac mae hi bellach yn derbyn triniaeth reolaidd i reoli ei chyflwr.

## HYDREF 2023:

### 'Yn gyflym, yn effeithlon a hollol ddi-boen' - Cleifion yn diolch i dîm ysbyty am gyflawni'r weithred gyntaf ar bledren yng Nghymru



Mae dau glaf yn Ysbyty Maelor Wrecsam wedi diolch i'r tîm meddygol am driniaeth 'gyflym a hollol ddi-boen', y gyntaf o'i bath yng Nghymru, sy'n defnyddio laser arloesol i gael gwared ar fannau amheus neu diwmorau ar y bledren.

Mae'r weithred yn cynnwys defnyddio Abladiad Laser Traws Wrethrol (TULA), sef archwiliad o'r bledren gan ddefnyddio camera ar diwb tenau hyblyg â laser i drin y bledren.

Roedd gan John James, 84 oed, dyfiannau cyson ar ei bledren am fwy na 15 mlynedd a thynnwyd y rhain yn flaenorol trwy weithred lawfeddygol lawn o dan anesthetig cyffredinol, gan gymryd diwrnod cyfan yn yr ysbyty a mwy o amser i adfer.

John oedd un o'r rhai cyntaf i dderbyn y weithred i dynnu'r tyfiannau gyda'r laser. Mae gan Elizabeth Comer, 82 oed, dyfiannau cyson ar ei bledren hefyd ac roedd y rhain wedi cael eu tynnu'n flaenorol o dan anesthetig lleol.

## TACHWEDD 2023:

### Clinig deintyddol cymunedol o'r radd flaenaf yn agor yn Ysbyty Bryn Beryl



Agorwyd Clinig Deintyddol Cymunedol newydd yn Ysbyty Bryn Beryl. Mae'r adeilad newydd yn cynnwys ystafelloedd triniaeth ddeintyddol mawr, ystafell ddihalogi ac ystafell glinigol ac offer arbenigol newydd fel cadeiriau addasadwy er mwyn galluogi pobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn i gael mynediad hwylus at ofal.

Mae'r clinig, sy'n wasanaeth cyfeirio'n unig, yn gartref i dîm deintyddol pwrpasol sy'n cynnwys nyrsys, therapydd, deintydd a chynorthwyydd gofal iechyd, sy'n darparu gofal deintyddol ar gyfer pobl na allant gael eu trin yn hawdd mewn practis deintyddol cyffredinol, fel cleifion sydd â chyflyrau iechyd penodol, anabledd dysgu neu broblem iechyd meddwl.

## RHAGFYR 2023:

### Tîm y Gymraeg yn ennill gwobr genedlaethol am helpu ysgolion a phobl ifanc i ymgyfarwyddo â byd gwaith



Gwnaeth Tîm y Gymraeg ennill y wobr am yr Hyrwyddwr Gorau o ran y Gymraeg yn y Gweithle yn seremoni flynyddol Gwobrau Partneriaid Gwerthfawr Gyrfa Cymru.

Mae'r gwobrau cenedlaethol yn dathlu ymdrechion cyflogwyr ar hyd a lled Cymru sy'n gweithio mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru i helpu ysgolion a phobl ifanc i ymgyfarwyddo â byd gwaith.

Enwebwyd Tîm y Gymraeg am y gwaith y mae wedi'i wneud i hysbysu, ysbrydoli a chymell pobl ifanc ynghylch cyfleoedd gyrfaol yn y sector iechyd yng Ngogledd Cymru, yn benodol y cyfleoedd i weithio'n ddwyieithog.

## IONAWR 2024:

### Fferyllfa GIG newydd yn agor yn Llanberis



Mae Fferyllfa GIG newydd wedi agor yn Llanberis, gan sicrhau bod gan bobl leol fynediad hwylus unwaith eto at feddyginiaethau a chyngor arbenigol ar garreg eu drws.

Yn dilyn cau fferyllfa'r dref yn 2023, gwnaeth y Bwrdd Iechyd weithio gyda Fferyllwyr Llŷn, y mae eu canghennau eraill yn cynnwys Nefyn, Abersoch, Llanbedrog, Blaenau Ffestiniog a Chriccieth, i sefydlu fferyllfa newydd yn y dref.

Agorodd y fferyllfa newydd yn Llanberis tua diwedd mis Tachwedd ac mae'n cynnig ystod eang o wasanaethau gan gynnwys dosbarthu presgripsiynau ac anhwylderau cyffredin.







## CHWEFROR 2024:

### Datgelu enw ar gyfer Uned newydd ar gyfer Mamau a Babanod

Mae enw'r uned iechyd meddwl rhanbarthol newydd ar gyfer Mamau a Babanod wedi cael ei ddatgelu. Dechreuodd gwaith adeiladu paratoadol yn swyddogol ym mis Tachwedd ar yr adeilad unllawr gwerth £7.5m, a hwn yw'r cyntaf o'i fath ar draws Swydd Gaer, Glannau Mersi, a Gogledd Cymru a bydd yn cael ei leoli ym Mharc Iechyd Iarlles Caer.

Dewiswyd yr enw 'Llety Seren' gan famau sydd wedi profi salwch iechyd meddwl ac mae'n adlewyrchu'r bartneriaeth drawsffiniol newydd rhwng y GIG yng Nghymru ac yn Lloegr.

## MAWRTH 2024:

### Byw'n Well gyda Dementia - Arddangosiad Ffilm



Cafodd cyfres newydd o ffilmiau gyda'r bwriad o greu gwell dealltwriaeth am ddementia ei harddangos yn ystod arddangosiad agoriadol yn Wrecsam.

Cafodd mwy na chant o westeion ragolwg arbennig ar bum ffilm fer 'Byw'n Well gyda Dementia' yn sinema'r Odeon. Gwnaeth y gwesteion, yn cynnwys aelodau'r cyhoedd, staff iechyd a gofal cymdeithasol, fynychu arddangosiadau dydd a nos o'r ffilm sydd â'r nod o godi ymwybyddiaeth a rhoi cymorth i bobl sy'n byw gyda rhywun sydd â dementia neu sy'n gofalu am rywun sydd â dementia.

Yr Athro Tracey Williamson, Nyrs Ymgynghorol Dementia, a gafodd y syniad ar gyfer y ffilmiau a chawsant eu hariannu gan y Bwrdd Iechyd. Cafodd yr arddangosiadau agoriadol eu hariannu trwy haelioni Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, a oedd yn awyddus i'r ffilmiau gael eu rhannu mor eang â phosibl ar draws Gogledd Cymru a thu hwnt.

Mae'r lluniau wedi'u marcio ar gyfer pob ciplun fesul mis

# Ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol

## Ym mis Mawrth, gwnaethom gyflwyno ein Cynllun Integredig Tair Blynedd ar gyfer 2024 hyd at 2027.



Mae'r Cynllun Integredig hwn yn nodi adeg bwysig i'r Bwrdd Iechyd. Hwn yw'r cynllun cyntaf a ddatblygwyd gan y Bwrdd Iechyd o dan arweinyddiaeth Cadeirydd a Phrif Swyddog Gweithredol newydd, ynghyd â newid sylweddol i aelodaeth y Bwrdd. Mae'n dangos uchelgais clir i roi trawsnewid a gwella ar waith ac i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel ac sy'n gynaliadwy ar gyfer pobl Gogledd Cymru. Mae'r cynllun hwn yn amlinellu llawer o'r camau gweithredu sydd eu hangen i wneud hynny ac yn benodol, mae'n tanlinellu bod llwyddiant parhaol yn ei gwneud yn ofynnol i ni fynd i'r afael â'r heriau presennol gyda dealltwriaeth gadarn am anghenion yn y dyfodol.

Fel y cyfryw, rydym yn tynnu sylw at yr angen i bennu gweledigaeth strategol glir ar gyfer y Bwrdd Iechyd dros y cyfnod nesaf o ddeng ymlaen a fydd yn arwain at welliannau i iechyd a lles ac sy'n cynnig gwasanaethau gofal iechyd ardderchog i bobl yng Ngogledd Cymru. Bydd hyn yn ein harwain wrth adeiladu ymhellach ar y gwasanaethau sy'n gweithio'n dda gan gynorthwyo gwasanaethau y mae angen eu hadlunio er mwyn delio â'r galw nawr ac yn y dyfodol.



I wneud hyn, byddwn yn gwrando'n astud ar bobl Gogledd Cymru a'n partneriaid gan gydweithio â nhw ac mae ein bwriad i wneud hynny wedi'i nodi'n glir yn y Cynllun hwn. Bydd hyn yn arwain at y datrysiadau gorau i Ogledd Cymru ac mae'n cydnabod bod y datrysiadau hynny'n cynnwys perthnasoedd dwfn ac ystyrlon ar sail ymddiriedaeth a'r ddealltwriaeth y bydd cydweithio fel 'system gyfan' yn cynorthwyo'r Bwrdd Iechyd a'n partneriaid, ac yn arwain at ganlyniadau gwell.

Y Bwrdd Iechyd yw'r cyflogwr mwyaf yng Ngogledd Cymru, gyda chyllideb flynyddol o ryw £2 biliwn. Felly rydym yn awyddus i ddefnyddio'r adnodd cyhoeddus hwn i helpu Gogledd Cymru i ffynnu. Mae hyn yn cynnwys sut y gallwn greu cyfleoedd ar gyfer ein gweithlu nawr ac yn y dyfodol gan weithio'n ofalus gyda'n partneriaid wrth wneud hynny. Mae hefyd yn cynnwys cyfleoedd yn ymwneud â sut byddwn yn gwario ein cyllideb er mwyn cael y canlyniadau iechyd gorau i boblogaeth Gogledd Cymru a sut i wneud y mwyaf o'n rôl fel 'sefydliad angori' yng Nghymru.

Yn olaf, hoffem ddiolch i'n cymunedau a'n partneriaid am eu cefnogaeth a'u parodrwydd i rannu cyngor a syniadau. Rydym yn edrych ymlaen at adeiladu ar hyn wrth i ni gryfhau'r perthnasoedd hyn ac ystyried ffyrdd o wella gwasanaethau gofal iechyd gyda'n gilydd yng Ngogledd Cymru nawr ac yn y dyfodol.



Adolygiad Blynyddol 2023/24

# Cymryd Rhan

## Ein prif ddiben yw gwella iechyd a darparu gofal rhagorol. Ein nod yw rhoi ein cleifion a'n cymunedau wrth wraidd popeth a wnawn.

Rydym am i bobl deimlo ein bod ni'n gwrando arnynt, a bod eu barn yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i wasanaethau iechyd lleol yng Ngogledd Cymru.

Mae yna lawer o ffyrdd y gall pobl gymryd rhan mewn cefnogi ac ymgysylltu â'r Bwrdd Iechyd. Gall hyn fod trwy wirfoddoli, gweithio mewn partneriaeth neu drwy sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf ganddynt.

Mae rhagor o wybodaeth am sut y gall pobl wneud hyn ar gael yn adran Cymryd Rhan gwefan BIPBC.

**Y Newyddion Diweddaraf**
Cewch y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wneud drwy'r Adran Newyddion ar wefan PBC, neu drwy ddilyn ein sianeli cyfryngau cymdeithasol:

- BetsiCadwaladr/
- betsicadwaladr/
- BetsiCadwaladr

cymryd rhan get involved